

Ysgol Y Graig



Cwricwlwm a Threfniadaeth

GWYBODAETH I RIENI



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

YSGOL Y GRAIG

Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LP

Ffôn: Llangefni (01248) 723092

Pennaeth: Eirianwen Williams B.Add.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Huw Redvers Jones

Ysgol Gynradd Sirol yw Ysgol Y Graig sydd wedi ei lleoli ar gyrion tref farchnad Llangefni. Mae ynddi Uned Feithrin fel rhan o'r ysgol ac gynlluniwyd yr adeilad newydd yn bwrpasol ar gyfer addysgu disgyblion i'r dyfodol.

Mae'r Corff Llywodraethol, y Prifathro a'r Staff yn ymrwymedig i ddarparu addysg o'r radd orau mewn awyrgylch hapus a gweithgar. Bydd hyn yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal sydd yn galluogi disgyblion i ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu hunan hyder.

Rydym yn gyson ymdrechu i wella'r ddarpariaeth ac i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion penodol ein disgyblion trwy greu ysgol o amgylch y plentyn h.y. yn cynnig cyfleoedd i gyd-weithio â gwahanol asiantaethau er llês y plant a'u holl ofynion emosiynol yn ogystal ag addysgol.

Nod yr Ysgol

- NK** Creu amgylchfyd ac awyrgylch hapus a diogel lle y gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.
- Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr unigolion, y gymdeithas, yr Awdurdod Addysg a'r Llywodraeth.
- Sicrhau cyflawniad gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol Diwygiedig a'r Cyfnod sylfaen trwy roi'r cyfle i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial ymhob agwedd ar y cwricwlwm.
- Cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl, waeth beth fo'i ryw, allu, crefydd neu hil.
- Annog parch tuag at eiddo a phobl eraill a phwysleisio pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymddangosiad i bob disgybl.
- Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel y gallant gymryd rhan llawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog.
- Helpu pob plentyn i fod yn annibynnol, yn greadigol ac yn chwilfrydig trwy ddatblygu sgiliau meddwl, y gallu i brosesu gwybodaeth, rhesymu, ymholi a gwerthuso.

Rhoddir gwybodaeth yn y llawlyfr hwn fydd yn gymorth i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion ddod yn ymwybodol o natur ac amcanion yr ysgol, safbwynt gweithgareddau cwricwlwm a gweithgareddau all gwricwlaidd. Braslun yn unig a gynigir yma. Mae polisiau a chynlluniau gwaith manwl wedi cael eu darparu a gellir edrych ar rhain yn yr ysgol.

Mae croeso i chwi drefnu i ddod i'r ysgol i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth.

TREFNIADAETH YR YSGOL

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Cadeirydd:	Mr Huw Redvers Jones
Is-Gadeirydd:	Mr Deiniol Harries
Clerc:	Mr Owain L Gwilym
Cynrychiolwyr Yr Awdurdod Addysg Lleol:	Cyng. Nicola Roberts Mr T M Owen Dr Iestyn Pierce
Cynrychiolwyr y Rhieni:	Mr Gethin Morris Williams Mr. Huw Redvers Jones Dr Arwel Jones
Aelodau Cyfetholedig:	Mr Richard Pritchard Mr Dewi O Jones Ms Llinos Jones Mr Deiniol Harries
Cynrychiolydd Cyngor Tref Llangefni:	Cynghorydd Margaret Thomas
Cynrychiolydd yr Athrawon:	Mrs Ann Roberts
Cynrychiolydd y Staff Ategol:	Mrs Elen Hughes
Pennaeth	Mrs Eirianwen Williams

PATRWM DIWRNOD YR YSGOL

Staff Dysgu

Tîm Rheoli:

Mrs Eirianwen Williams B.Add.
Mr Owain L Gwilym B.A.
Mrs Ann Roberts
Mrs Mannon Greieves-Owen B.A.
Mrs Rhian D. Hughes B. Add.

Athrawon y Cyfnod Sylfaen:

Mrs Glenys Jones B.Add.
Mrs Nia Jones B.A.
Mrs Mannon Grieves-Owen B.A.
Mrs Rhian Dargie Hughes B. Add
Mrs Bethan H. Rowlands B.A.
Mrs Elin Môn Rowlands
Mrs Ann Roberts
Miss Catrin Angharad Roberts B.Add

Athrawon Adran Iau:

Mr Gethin Phillips B.Add
Mr Rhys Glyn Pritchard B. Add
Mr Owain Ll. Gwilym B.A.
Mrs Bethan Llewelyn Jones
Miss Delyth L. Roberts B.A.
Mr Gwion Clarke B.A.
Mrs Elen Wyn Hughes B.A.

Miss Elaine Wyn Jones M.A. (.6)
Mrs Rhian Ernest Pritchard (.4)

Gweinyddesau Cyfnod Sylfaen

Miss Nikki Roberts
Miss Meryl Pritchard
Miss Sasha Jones
Miss Karen Jones
Mrs Tracy Williams
Miss Sioned Jones
Mr Gerallt Williams
Mrs Bethan Jones

Uwch Gymhorthydd:

Mrs Elen Hughes (Swyddog Lles)
Mrs Sue Layton

Cymhorthyddion ADY

Mrs Nia Hughes
Mrs Ann Thomas
Miss Lisa Roberts
Miss Emma Williams
Mrs Bet Humphreys
Miss Sharon Williams
Miss Rhian M. Roberts
Mrs Einir Wyn Williams
Mrs Nia Morris
Mrs Julie Thomas
Mrs Susan Taylor
Mrs Jennifer McGilvary
Mrs Sandra Edwards
Mrs Carroll Rees

Staff Ategol

Ysgrifenyddes/Clerc Cinio:
Gofalwr:

Mrs Donna R. Jones
Mr Alvin Jones

Sesiwn y Bore	9:00 - 11:00 - 9:00 - 12:00 -	Meithrin (Babanod/Iau)
Sesiwn y Prynawn	1:00—3 p.m. NW - 3:05 - NW - PW 5 -	(Meithrin) (Babanod) (Iau)
Nifer arferol yr oriau o amser gwersi yr wythnos	-	ON WM Babanod OP WM Iau

CYRRAEDD YR YSGOL

Nid yw'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am y plant cyn 8:45 o'r gloch a dylai rhieni sy'n dymuno danfon eu plant i'r ysgol yng nghynt, o dan amgylchiadau arbennig, sicrhau caniatâd y Pennaeth. Gan fod yr ysgol wedi ei chynllunio i fod yn 'Ysgol Werdd' disgwylir i bob plentyn sydd o fewn cyrraedd rhesymol i'r ysgol fod yn cerdded neu beicio.

Mae'r Clwb Brecwast ar agor o 8.20—8.40 a.m. bob dydd i ddisgyblion o'r Meithrin (bore) i fyny.

GADAEL YR YSGOL

Dylai rhieni plant Adran y Babanod gysylltu â ni pan fo newid yn nhrefniadau mynd adref y plant.

POLISI MYNEDIAD

Derbynnir plant i'r Uned Feithrin yn rhan amser ym mis Medi'n dilyn eu penblwydd yn dair oed.

Unwaith y flwyddyn yn unig y derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser, ym mis Medi a hynny'n unol â pholisi'r AALI (h.y. ym mis Medi ar ôl eu pen blwydd yn bedair oed). Weithiau mewn achosion arbennig am resymau cymdeithasol, meddygol caniateir derbyn plant cyn eu bod yn bedair oed. Byddai'r plant hynny yn aros yn y dosbarth meithrin tan yr amser arferol cyn trosglwyddo i'r dosbarth Derbyn

Yn gynnar yn ystod tymor y Pasg cysylltir â rhieni disgyblion fydd yn dechrau ym mis Medi i ofyn am fanylion am eu plant. Yna yn ystod Tymor yr Haf fe'u gwahoddir hwy a'u plant i dreulio ychydig amser yn yr ysgol i ymgynefino â'r Uned Feithrin, lleoliad toiledau, maes chwarae a.y.y.b. ac i gyfarfod yr Athrawon a'r Pennaeth. Gwelwyd dros y blynyddoedd fod ymweliad o'r fath yn torri'r garw ac yn osgoi llawer o drafferthion dechrau mewn ysgol newydd.

TREFNIADAETH DOSBARTHADAU

Trefnwyd yr ysgol yn 13 dosbarth llawn amser gan geisio sicrhau cydbwysedd o ran niferoedd a chreu

unedau gyda dim mwy na dwy flynedd o ystod oed.

Lleolir y plant yn ôl oedran ag eithro pan wneir unedau ar gyfer sylw arbennig.

Y nod yw trefnu'r dosbarthiadau i sicrhau cyd-adwaith byw ar lafar ac yn ysgrifenedig rhwng athro a phlentyn, rhwng athro a dosbarth cyfan, a rhwng plentyn a phlentyn mewn grwpiau. Trefnir y dosbarthiadau mewn grwpiau am ran helaeth o'r diwrnod.

Lleolir un athro o fewn pob dosbarth gyda Chymorthyddion Cyfnod Sylfaen yn ychwanegol o fewn y Dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen a chymorthyddion ADY yn unol â'r galw am gefnogaeth ychwanegol i rai disgyblion.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth arferol, ceir Uned Feithrin rhan amser sy'n cyfarfod bob bore a phrynhawn.

GWYLIAU'R YSGOL

Anfonir rhestr o ddyddiadau gwyliau'r ysgol i bob cartref ar ddechrau Tymor yr Hydref. Atodir rhestr CM4 / CM5 o fewn y pecyn yma.

Y CWRICWLWM

Swyddogaeth yr ysgol yw meithrin ac annog datblygiad pob plentyn fel unigolyn ac fel aelod cyfrifol o gymdeithas. Fel unigolyn anelir at ddatblygiad ei dwf corfforol, ymenyddiol a moesol ac i ddarparu'r cyfle i'r datblygiad hwnnw fod mor eang ag sydd bosib. Mae'r plentyn

IAITH

Yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg rhoddir cyfle cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr Ysgol hon. Anelwn at y nod o gael pob disgybl yn rhugl yn y ddwy iaith erbyn diwedd ei yrfa yn yr Ysgol Gynradd.

Dyma'r amcanion penodol:-

Dosbarth meithrin (derbyn)

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Gweddill y Cyfnod Sylfaen

Adeiladu ar y sylfaeni a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Iau

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd.

Hwyr ddyfodiad.


Mae cyfle ardderchog i hwyr ddyfodiad i'r adran Iau, ddysgu Cymraeg. Lleolir Uned Iaith ar gyfer hwyr ddyfodiad i Ynys Môn ym Moelfre. Caiff y plentyn dreulio tymor cyfan yn yr Uned—uchafrif o 20 gyda dau athro lle cânt eu trwytho'n y Gymraeg yn ogystal a dysgu'r holl bynciau eraill. Ar ddiwedd tymor yn yr Uned bydd y plentyn yn abl i ymuno â dosbarth cyffredin yn yr ysgol hon gyda meistrolaeth dda o'r ail iaith.

Ymfalchiwn yn nhraddodiad yr ysgol hon o wneud disgyblion a ddaw yma o gartrefi di Gymraeg yn gwbl rugl yn y Gymraeg fel y Saesneg, yn ddarllenwyr cystal yn y ddwy iaith ac ar lefel uwch mae'n debyg na phe baent wedi dysgu Saesneg yn unig. Canlyniad hyn yw medru dwy iaith sy'n hwyluso'r dasg o ddysgu trydedd iaith yn yr ysgol Uwchradd.

Yn olaf rhaid pwysleisio, fodd bynnag, na fyddem byth yn disgwyl i blentyn ymdopi â sefyllfa ddysgu drwy gyfrwng ei ail iaith os byddai hynny'n rhwystro'r cynnydd a datblygiad cyffredinol.

MATHEMATEG

Mae'r gwaith Mathemateg yn yr Ysgol wedi ei seilio ar y Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol sy'n cyfeirio tuag at ddulliau dysgu yn ogystal â chynnwys y cwricwlwm a gyflwynir. Rydym fodd bynnag yn gweld gwerth mewn, ac yn defnyddio cynnyrch masnachol ychwanegol i ategu'r gwaith yn enwedig i atgyfnerthu ac i ymestyn gwaith mewn rhai agweddau o'r maes. Mae gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ym Mathemateg yn mynnu cryn bwyslais ar waith ymarferol - a da o beth yw hynny. Nid yw yn beth newydd yma fodd bynnag gan ein bod wedi coleddu'r arfer "Rwy'n gwneud felly rwy'n deall" ers blynyddoedd. Y prif fwrriad yw fod y plant yn cael pleser wrth ymdrin â Mathemateg a boddhad o'i drafod mewn sefyllfa naturiol.



Mae llawer ohonoch rwy'n siwr wedi gweld newid sylweddol yn maes Mathemateg ers eich dyddiau ysgol chwi - a gwir yw hyn. Mae'n debyg mai'r prif wahaniaeth yw'r newid - o wneud tudalen ar ôl tudalen o 'syms' a olygai gofio'r patrwm neu'r dull o weithio'r ateb - i geisio gwneud synnwyr o broblem arbennig - ceisio deall y broblem ac yna drwy ymresymu ddewis ffordd i'w datrys.


Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn cydnabod gwerth hen arferion fel dysgu tablau ac yn y blaen. Mae'n rhaid cael arfau sylfaenol Mathemateg oherwydd hebddynt nid â'r plant ymhell iawn gyda'u gwaith, ac erbyn hyn rhoddir cryn bwyslais ar 'fathemateg pen' a gweithio ar roddi i'r plant strategaethau gwaith pen a gweithio'n draws gwricwlaidd

Pwysleisiwn bwysigrwydd cyflwyno'r gwaith yn dwt a thaclus fel mater o falchder personol ac arfer dda.

GWYDDONIAETH

Beth yw gwyddoniaeth? Sut y gellir ei gyflwyno i blant bach? Cwestiynau a ofynnwyd gan athrawon a rhieni o glywed fod Gwyddoniaeth yn bwnc statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol. Y gwir yw fod plant yr Ysgol Gynradd wedi bod yn gwneud Gwyddoniaeth ers blynyddoedd wrth astudio'r tywydd, byd natur, pethau sy'n arnofio a phethau sy'n suddo, cryfder defnyddiau, chwarae efo batris, magedau a.y.y.b.

Yn ei elfen meithrin y plant i ddefnyddio'r pum synnwyr yw gwyddoniaeth; dysgu sylwi; trafod, gwneud arbrofion syml a dod i benderfyniad - hyn i gyd ar lefelau sy'n cyd fynd â'u hoedran, gallu a thueddffryd. Bydd y gwaith wedi ei seilio yn bennaf ar thema'r tymor h.y. gwaith prosiect.





TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Dyma faes sy'n datblygu'n gyson a cheisiwn fel ysgol sicrhau ein bod yn cadw i fyny â'r newidiadau yma. Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio technoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm a'i fod yn arf pwerus yn y broses o addysgu'r plant. Rhoddir cryn bwyslais ar y defnydd o'r 'We' ac mae gennym fel ysgol safle ein hunain. Cyfeiriad ein safle ni ar y we yw

www.ysgolygraig.co.uk a'n e-bost yw

pennaethgraig@ynysmon.gov.uk

Rydym yn ymfalchio yn y ffaith i ni fod yr ysgol gyntaf ar Ynys Môn i dderbyn gwobr BECTA am ein gwaith ym mis Hydref 2010.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Dyma bwnc sylfaen arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol fydd yn rhoi cyfle i blentyn ddylunio a gwneud pethau drwy ddefnyddio offer a deunyddiau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd megis y cartref, yr ysgol a.y.y.b. Rhoddir tasgau i'r plant i'w gwneud ac yna cânt gyfle i arfarnu'r hyn a gynhyrchir.

Y DYNIAETHAU

Mae'r maes hwn yn cynnwys Hanes a Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol. Rhoddir pwyslais ar astudio'r amgylchfyd fel rhan o waith prosiect. Mae Addysg Grefyddol yn cael sylw blaenllaw yn yr ysgol hon. Nid oes cysylltiadau crefyddol uniongyrchol na ffurfiol. Croesewir gweinidogion ac offeiriaid lleol i'r ysgol i'n cynorthwyo yn achlysurol. Bydd y plant yn eu tro yn cael mynd i'r capeli a'r eglwys i gymryd rhan mewn gwasanaethau fel Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Y nod yw cael yr ysgol i chwarae rhan lawn a phriodol yn mywyd ysbrydol y gymuned.

Os nad yw rhiant yn dymuno i'w blentyn gymryd rhan mewn gwasanaethau nac ychwaith mewn astudiaethau Beiblaidd/Crefyddol yna, yn ôl ei gydwybod mae hawl gan y rhiant eithrio'r plentyn o'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol a gynigir.

ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

Ystyriwn hwn yn faes arbennig o bwysig yn yr oes sydd ohoni lle mae bygythiad cynyddol i fywyd teuluol yn sgil plant yn mynnu mwy o ryddid, llai o arolygaeth, a pheryglon ysmegu, alcohol a chyffuriau, ac wrth gwrs, rhyw.

Mae Addysg Iechyd yn cael sylw blaenllaw yn ein Cwricwlwm gan ddechrau efo glendid personol, yna bwyta'n iach a chadw'n ffit. Mae peiriannau dŵr wedi eu lleoli o fewn cyrraedd pob dosbarth ac anogir y disgyblion i wneud defnydd ohonynt. Mae siop ffrwythau ar gael yn ddyddiol i ddisgyblion o flwyddyn 1-6 a cheir caffï bwyd iach yn y dosbarth derbyn.

Addysg Rhyw - Ymdrinir â'r maes yma o fewn y rhaglen ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol o flwyddyn 1. Mae Ysgol y Graig yn cymryd rhan yng Nghynllun Ysgolion Iach Ynys Môn ac wedi adolygu'r polisi Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasoedd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Ein nod yw i ychwanegu yn gyfrifol ac yn ddatblygiadol at wybodaeth a phrofiadau plant am eu cyrff a'u perthynas o'r Byd o'u cwmpas. Mae croeso i rieni ddod i mewn i archwilio copi o'r polisi llawn a'r cwricwlwm perthnasol ar gyfer pob oedran

CELF

Mae Celf hefyd yn bwnc Cwricwlwm Cenedlaethol gyda rhaglenni astudio eang ac amrywiol yn ymestyn o gyflwyno a datblygu sgiliau a thechnegau i werthfawrogi Celf.

ADDYSG GORFFOROL

Ceisiwn sicrhau fod y plant yn cael gwersi Ymarfer Corff a Chwaraeon yn rheolaidd gan y credwn fod ymarfer y corff yr un mor bwysig ag ymarfer y meddwl os yw'r plentyn i dyfu'n berson heini ac iach. Mae campfa yn neuadd yr ysgol gydag offer amrywiol, cyrtiau ar yr iard ar gyfer pêl rwyd a chae ar gyfer criced, rownderi, pêl droed, rygbi a mabol-gampau. Trefnir gwersi nofio yn Mhlas Arthur gan anelu at gael pob plentyn yn nofio 25 metr cyn trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd. Cynhelir clybiau gemau'n wythnosol ar gyfer y plant hŷn.



CERDDORIAETH

Bydd pob plentyn yn cael cyfle i wneud cerddoriaeth o'r cychwyn cyntaf trwy ganu a defnyddio offerynnau traw. Fel y tyfant cânt gyfle i ddysgu chwarae'r recorder yn ogystal a gwersi canu, gwneud cerddoriaeth greadigol a gwerthfawrogi cerddoriaeth trwy wrando ar gerddoriaeth a dysgu ychydig o hanes cyfansoddwyr.

Gellir ymestyn y ddarpariaeth gerddorol i'r plant hynny sydd yn dangos dawn neu allu arbennig gyda chaniatâd y rhieni trwy ymuno â chynllun gwersi offerynnol yr Awdurdod Addysg sy'n darparu athrawon teithiol i ddysgu plant i chwarae'r ffidil, soddgrwth, ffliwt, clarinét, y Corn Ffrengig a'r delyn. Codir ffi am y gwersi hyn a disgwylir i'r rhieni dalu'r swm yma. Mae'n swm rhesymol iawn o gofio ei fod yn cynnwys tiwtor a benthyg offeryn. Mewn achosion o galedi (plant cinio am ddim) gellir gwneud cais i'r Gymdeithas Rieni/Athrawon am nawdd a cheir ffurflenni arbennig i'w llenwi ar gyfer hyn.

Rydym wedi sefydlu cerddorfa yn yr ysgol, a rhoddir cyfle i nifer o'n plant ddod yn aelodau o gerddorfeydd neu fandiau rhanbarth Môn.

Mae cor yr ysgol yn brysur a llwyddiannus iawn, ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi perfformio ar lwyfan Neuadd Dewi Sant Caerdydd ddwywaith, wedi ymddangos ar y teledu ddwywaith,, yn ogystal ag ennill gwobrau yn yr Wyl Gerdd Dant ac Ei-steddfod Genedlaethol yr Urdd.



GWAITH THEMATIG

Ymdrinnir â'r Cwricwlwm yn bennaf trwy'r dull thematig h.y. cynlluniwyd cwricwlwm pob dosbarth i fewn i chwe thema dros gyfnod o ddwy flynedd (gweler y rhan ar ddata cyffredinol) ynghyd ag elfennau yn bynciau. O fewn thema bydd rhestr o weithgareddau fydd yn rhoi cyfle i'r plant feithrin medrau ymchwilio a datrys problemau yn ogystal a datblygu ymhellach sgiliau llafaredd, darllen a rhifedd a gyflwynwyd drwy ddulliau dysgu mwy ffurfiol o fewn ein cyfnodau boreol o ymdrin â'r pynciau craidd. Mae'r dull thematig yn fodd i addysgu plant mewn ffordd ddiddorol, bleserus.

Gallwch fel rhieni gynnig cefnogaeth werthfawr drwy ymddiddori yng ngwaith y plant a'u helpu i gasglu gwybodaeth a.y.y.b.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Yn unol â'r Deddf rydym fel ysgol yn ceisio darparu'n briodol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ceisiwn:

- (a) sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- (b) sicrhau trefn effeithiol ar gyfer adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar yn eu gyrfa.
- (c) ddarparu addysg wahaniaethol yn ôl gofyn;
- (ch) weithio mewn partneriaeth â'r rhieni pan fo angen cysidro darpariaeth arbennig;
- (d) sicrhau ymateb ysgol gyfan fel bo athro dosbarth yn cydweithio â'r cyd-gysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- (dd) defnyddio, a chydweithio â'r asiantaethau eraill perthnasol.

Trefn Gweithredu

Rhoddir plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfnod gwahanol ac/neu fe ddarperir ddatganiadau ar eu cyfer yn unol â'r anghenion. Fe ymgynghorir â rhieni yn rheolaidd a bydd rhan iddynt yn y broses adolygu tymhorol. Mae gan yr ysgol ddwy aelod o staff sy'n gyfrifol am y maes yma ac yn cydweithio â'r athrawon dosbarth i geisio cynnig y gefnogaeth cywir ar gyfer pob plentyn sydd ag anghenion o'r fath.

(Gellir cael golwg ar y polisi llawn a'r drefn gweithredu trwy gysylltu â'r ysgol).

Mae disgyblion Mwy Abl a Dawnus yn cael eu hadnabod yn gynnar. Maent yn cael eu targedu a'u tracio. Y nod yw ceisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial.